




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adolygiad o Adroddiadau CYSAG

2004-05, 2005-06, 2006-07 a 2007-08

www.cymru.gov.uk



Adolygiad o Adroddiadau CYSAG

2004–05, 2005–06, 2006–07 a 2007–08

- Cynulleidfa** CYSAGau; CCYSAGauC; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol eglwysi; undebau athrawon; darparwyr hyfforddiant.
- Trosolwg** Crynodeb yw'r adolygiad hwn o waith y CYSAGau; mae'n dangos sut maen nhw'n cefnogi ysgolion ac yn ceisio codi safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd CYSAGau am gydweithio ac yn fodd o adnabod dulliau gweithredu effeithiol ar gyfer datblygiad parhaus.
- Camau i'w cymryd** Adolygu'r gwaith a wneir gan CYSAGau ar hyn o bryd, adnabod arfer da ac archwilio dulliau o gefnogi ysgolion ymhellach wrth godi safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5751
e-bost: asesu@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Ar gael drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau
- Dogfennau cysylltiedig** *Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 – Negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu; Proffiliau enghreifftiol dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn addysg grefyddol: Canllawiau ychwanegol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011); *Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009); *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	2
Cyflwyniad	5
Addysg grefyddol	6
Addoli ar y cyd	23
Materion eraill	26
Atodiad 1: Gwybodaeth atodol yn gysylltiedig ag adroddiadau CYSAG	29
Atodiad 2: Cymorth a ddarparwyd i weithredu meysydd llafur cytûn	31
Atodiad 3: Y safonau a gyflawnwyd gan ysgolion yng Nghymru o dan drefniadau arolygu cyn Medi 2004	36
Atodiad 4: Y safonau a gyflawnwyd gan ysgolion yng Nghymru o dan drefniadau arolygu ar ôl Medi 2004	40
Atodiad 5: Cyfanswm graddau a ddyfarnwyd ar gyfer pob cyfnod allweddol o dan y fframwaith arolygu newydd rhwng 2005 a 2008	50
Atodiad 6: Crynodeb o ystadegau arholiadau	51
Atodiad 7: Rhestrau adnoddau a deunyddiau cymorth a anfonwyd i'r ysgolion	55
Atodiad 8: Darpariaeth HMS	59
Atodiad 9: Cymorth ar gyfer addoli ar y cyd	62
Atodiad 10: Adroddiadau arolygu a gweithredu dilynol ar gyfer addoli ar y cyd	65
Atodiad 11: Hyfforddiant a chynghor a roddwyd i aelodau CYSAG	72
Atodiad 12: Cyfeiriadau at ddogfennau ACCAC/AdAS	77

Crynodeb gweithredol

Mae adroddiadau'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a ddadansoddwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn dangos sut mae CYSAGau ac awdurdodau lleol wedi parhau i ddatblygu dulliau arloesol o gefnogi ysgolion a chodi safonau mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru.

Mae gan y mwyafrif o CYSAGau drefniadau cadarn ar gyfer cynghori eu hawdurdodau lleol ar gefnogi a gweithredu eu meysydd llafur cytûn lleol yn unol â'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Mae'r meysydd llafur cytûn hyn yn cael eu sefydlu'n dda yn yr ysgolion gyda chymorth gwerthfawr wedi'i ddarparu gan awdurdodau lleol ar ffurf deunyddiau addysgu, cyrsiau hyfforddiant mewn swydd (HMS) a'u gwasanaethau ymgynghorol.

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn argymhell bod CYSAGau yn parhau i ddarparu cyngor effeithiol i'w hawdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud â chodi safonau mewn addysgu a dysgu yn unol â'r meysydd llafur cytûn. Dylai pob CYSAG barhau i gefnogi ysgolion a monitro a gwerthuso llwyddiant y cyngor sy'n cael ei roi.

Mae pob un o'r 22 o CYSAGau yn darparu dadansoddiad ystadegol o adroddiadau arolygu eu hysgolion. Roedd 11 o'r CYSAGau wedi disgrifio sut yr oedd yr ysgolion a gafodd Radd 3 (nodweddion da yn gorbwyso diffygion) neu'n is mewn addysg grefyddol yn cael eu cynorthwyo i lunio cynlluniau gweithredu ôl-arolygu. Roedd gan bum CYSAG ysgolion a gafodd Radd 4 (rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig). Ni chafodd unrhyw ysgol Radd 5.

I ategu fframwaith arolygu Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi (Estyn)¹, roedd pum CYSAG wedi nodi eu bod nhw'n gweithredu mesurau ychwanegol i werthuso safonau mewn addysg grefyddol. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglen o ymweliadau adolygu cefnogol a defnyddio adroddiadau hunanwerthuso ysgolion.

Mae AdAS yn argymhell bod CYSAGau yn parhau i gynghori awdurdodau lleol ar fonitro safonau a chefnogi ysgolion cyn ac ar ôl arolygiadau. Hefyd dylai CYSAGau ddatblygu ac argymhell dulliau monitro ychwanegol a chyflenwol. Byddai hyn yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i wella safonau addysgu a dysgu mewn addysg grefyddol.

¹ Diwygiodd Estyn y fframwaith arolygu yn 2004.

Roedd 20 CYSAG wedi darparu gwybodaeth ystadegol ynglŷn â chanlyniadau arholiadau cyhoeddus ysgolion o fewn eu hawdurdod lleol. Gydag un eithriad, dywedodd pob CYSAG a oedd wedi cyflwyno canlyniadau arholiadau eu bod nhw wedi ystyried a thrafod y canlyniadau hyn yn eu cyfarfodydd. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cymharu canlyniadau'r awdurdod lleol â'r ffigurau ar gyfer Cymru gyfan.

Roedd 12 CYSAG wedi darparu ffigurau ar wahân i fechgyn a merched. Os oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y rhywiau, roedd y CYSAGau wedi canolbwyntio ar weithredu strategaethau cefnogol.

Mae AdAS yn argymhell bod CYSAGau yn darparu tystiolaeth o'r trafodaethau sy'n deillio o'r dadansoddiad o ganlyniadau arholiadau. Dylai CYSAGau hefyd ddarparu tystiolaeth o'r cyngor dilynol sy'n cael ei roi i'r awdurdod lleol a'r camau sy'n cael eu cymryd i helpu ysgolion i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion a chodi safonau.

Roedd 20 CYSAG wedi rhestru cymorth ar ffurf adnoddau addysgu a gafodd eu dosbarthu i ysgolion, ond nid oedd unrhyw sôn am y gweithdrefnau sydd ar waith i werthuso eu heffeithiolrwydd.

Mewn pum CYSAG, nodwyd nad oedd hyfforddiant ar gael ar gyfer un neu ragor o'r blynyddoedd sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn.

Mae AdAS yn argymhell bod CYSAGau yn parhau i roi cyngor ar ddulliau addysgu, adnoddau a hyfforddi athrawon i'w hawdurdodau lleol. Dylai CYSAGau sicrhau bod gweithdrefn werthuso ar waith i asesu effaith y cyngor hwnnw ar safonau.

Roedd naw CYSAG wedi argymhell canllawiau ar gyfer addoli ar y cyd i ysgolion. Roedd 14 CYSAG wedi darparu cyrsiau HMS ar addoli ar y cyd. Dywedodd dau CYSAG fod gwasanaethau ymgynghorydd yr awdurdod lleol ar gael i ysgolion.

Cafodd addoli ar y cyd ei werthuso drwy gyfrwng adroddiadau arolygu ac ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG i arsylwi ar wasanaethau addoli.

Adroddodd rhai CYSAGau fod y dadansoddiad o adroddiadau arolygu yn dangos bod angen canllawiau pellach ar rai ysgolion uwchradd er mwyn iddynt gydymffurfio â gofynion statudol addoli ar y cyd. Cynigiwyd cymorth i'r ysgolion hynny er mwyn iddynt ddatrys y sefyllfa.

Mae AdAS yn argymhell bod CYSAGau yn parhau i gynghori eu hawdurdodau lleol ar gefnogi a gwerthuso addoli ar y cyd effeithiol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â gofynion statudol. Dylai pob CYSAG barhau i ystyried y materion hyn yn gyson.

Mae llawer o dystiolaeth o arfer da yng ngwaith y CYSAGau a'r cyngor y maent yn ei roi i awdurdodau lleol i hyrwyddo safonau mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae adroddiadau CYSAG yn darparu dull o rannu arfer da, hysbysu athrawon am ddulliau newydd a materion i'w hystyried mewn addysg grefyddol a gwerthuso llwyddiant. Yn ogystal, mae Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC) yn gweithredu fel fforwm i ledaenu syniadau, trafod pynciau pwysig a chefnogi gwaith CYSAGau yng Nghymru.

Mae AdAS yn cydnabod ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud gan CYSAGau a CCYSAGauC o ran cefnogi a chodi safonau mewn addysg grefyddol ac mae'n gwerthfawrogi'r berthynas weithio agos sydd rhyngddynt.

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gael CYSAG. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i CYSAGau gynhyrchu adroddiadau blynyddol ar eu gwaith. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi:

- gwybodaeth am y cymorth a'r canllawiau y mae'r awdurdodau lleol wedi'u rhoi i helpu i godi safonau mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd
- crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdodau lleol gan eu CYSAGau, ac adroddiad ar y canlyniadau.

Erbyn 30 Rhagfyr bob blwyddyn, bydd CYSAGau yn anfon eu hadroddiadau blynyddol i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru (cyfeirnod: cylchlythyr rhif 10/94: *Addysg Grefyddol a Chydaddoli*).

Mae'r adolygiad hwn o adroddiadau CYSAGau yn cyfeirio at y cyfnod o fis Medi i fis Awst ar gyfer y blynyddoedd academaidd: 2004–05, 2005–06, 2006–07 a 2007–08. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid oedd adroddiadau CYSAG ar gael i'w hadolygu ar gyfer: Sir Gaerfyrddin 2006–07, Ceredigion 2006–07, Sir Fynwy 2007–08, Powys 2007–08 a Bro Morgannwg 2005–06 (mae gwybodaeth ategol am adroddiadau CYSAG i'w gweld yn Atodiad 1 ar dudalen 29).

Addysg grefyddol

Meysydd llafur cytûn lleol

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol fabwysiadu maes llafur cytûn lleol ar gyfer addysg grefyddol i bob ysgol gymunedol, ysgol sefydledig ac ysgol wirfoddol heb gymeriad crefyddol² a'i adolygu bob pum mlynedd. Mae CYSAGau yn cynghori awdurdodau lleol ar y mater hwn ac mae cynhadledd maes llafur cytûn yn cael ei chynnull i wneud argymhellion, a chyflwyno meysydd llafur diwygiedig i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu.

Adolygu'r maes llafur cytûn lleol

Roedd pob CYSAG wedi nodi eu bod nhw wedi gweithredu meysydd llafur cytûn diwygiedig rhwng 2000 a 2002. Yn dilyn hyn, cafodd cynadleddau maes llafur cytûn eu cynnull gan bob CYSAG yn 2005 i adolygu a diwygio eu meysydd llafur.

Yn 2004–05, ar gais CCYSAGauC, argymhellodd pob CYSAG y dylid oedi cyn gweithredu'r meysydd llafur diwygiedig tan fis Medi 2008 pan fyddai fframwaith newydd AdAS, sef *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* ar gael yn ei ffurf derfynol.

Dyweddodd CYSAG Sir Gaerfyrddin y byddai'n gweithredu ei faes llafur diwygiedig ym mis Medi 2009.

Cafwyd manylion gan CYSAG Wrecsam am raglen gweithredu raddol lle y byddai'r cyfnodau allweddol gwahanol yn cael eu cyflwyno i'r maes llafur newydd ar adegau gwahanol rhwng 2008 a 2011.

Yn ôl adroddiad CYSAG Sir Fynwy (2005–06), o ganlyniad i adolygiad o ddarpariaeth addysg grefyddol sawl un o'i ysgolion, er y gwelwyd rhai enghreifftiau o arfer rhagorol, roedd rhai ysgolion yn dilyn cynlluniau dysgu oedd heb gyfateb yn llwyr â'r maes llafur cytûn lleol. Nodwyd bod y Swyddog Gwella Ysgolion oedd yn gyfrifol am addysg grefyddol yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn cysylltu â'r ysgolion ynglŷn â'u rhwymedigaethau cyfreithiol i weithredu'r maes llafur.

Roedd pob CYSAG yn cydnabod yr angen i gael meysydd llafur oedd yn cyfateb â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol newydd oedd yn cael ei ddatblygu yn ystod y cyfnod adolygu hwn. Argymhellwyd

² Mae'n ofynnol i'r ysgolion hynny sydd â chymeriad crefyddol i ddarparu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn unol â'u gweithred ymddiriedolaeth, neu ddaliadau ffydd neu enwad oni bai y gwnaethpwyd cais am ddarpariaethau arbennig o dan baragraffau 3 a 4, Adran 2 – atodlen 19 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

bod eu hawdurdodau lleol yn mabwysiadu/addasu'r fframwaith fel sail i'w meysydd llafur cytûn lleol ac roedd y CYSAGau yn croesawu'r ffaith y byddai'n darparu elfen o gysondeb mewn darpariaeth addysg grefyddol yng Nghymru.

Wrth adolygu'r meysydd llafur cytûn lleol, roedd wyth CYSAG wedi nodi bod angen iddynt ystyried dogfen ymgynghori Cyfnod Sylfaen ACCAC a dywedodd un CYSAG y byddai'n ystyried datblygiadau yng Nghyfnod Allweddol 3 ac addysg ôl-16 yn gyson.

Ar gais y CYSAGau, roedd nifer fach o awdurdodau lleol wedi sefydlu gweithgorau i adolygu eu meysydd llafur cytûn presennol er mwyn cynghori eu hawdurdod lleol ar ddiwygiadau posibl.

Dywedodd sawl CYSAG fod eu hawdurdodau lleol wedi sefydlu gweithgorau i ddarparu deunyddiau cefnogol, megis cynlluniau dysgu, deunyddiau enghreifftiol, rhestrau adnoddau a chanllawiau asesu i gynorthwyo ysgolion wrth iddynt weithredu'r fframwaith newydd. Mae'r deunyddiau hyn wedi'u crynhoi yn Atodiad 2 (gweler tudalen 31).

Mae AdAS yn croesawu'r gwaith a wnaed gan awdurdodau lleol i adolygu eu meysydd llafur cytûn lleol ac yna mabwysiadu neu addasu'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Roedd peth tystiolaeth hefyd yn ystod y cyfnod hwn bod awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion i weithredu newidiadau drwy gyswllt personol yr ymgynghorwyr a CYSAG yn gohebu â'r ysgolion drwy lythyr.

Gwahoddir pob CYSAG i ystyried y ffordd orau y gallent ddarparu cymorth a monitro ysgolion wrth iddynt weithredu'r meysydd llafur cytûn newydd a sut y byddant yn gwerthuso llwyddiant y cymorth hwnnw.

Safonau mewn addysg grefyddol

Mae CYSAGau yn cydweithio â'u hawdurdodau lleol i fonitro a gwella safonau addysg grefyddol mewn ysgolion. Gwneir hyn drwy ddadansoddi adroddiadau arolygu ysgolion, adroddiadau hunanwerthuso, canlyniadau arholiadau, canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol, ymweliadau ysgol a thrwy gynnal arolygon.

Adroddiadau arolygu ysgolion

Ym mis Medi 2004, cyflwynodd Estyn system newydd o arolygiadau ysgolion³. Mae'r safonau a gyflawnwyd gan ysgolion yng Nghymru o dan drefniadau arolygu cyn mis Medi 2004, fel y'u nodwyd yn adroddiadau CYSAG, i'w gweld yn Atodiad 3 (gweler tudalen 36).

Er gwaethaf y gwahaniaeth rhwng yr hen drefniadau arolygu a'r trefniadau arolygu newydd, mae'r cyfanswm graddau a ddyfarnwyd ar gyfer pob cyfnod allweddol rhwng 2005–2008 wedi parhau i fod yn uchel a phrin iawn yw'r cyfnodau allweddol sy'n cael Gradd 4 neu is. Am fanylion gweler Atodiad 4 (tudalen 40) ac Atodiad 5 (tudalen 50).

Yn yr adroddiadau arolygu (cyn 2004), pan gafodd addysg grefyddol ei harolygu fel pwnc ar wahân, barnwyd bod nifer o ysgolion yn dangos 'nodweddion da a rhagorol' yn eu cwricwlwm addysg grefyddol. Yn achos ysgolion cynradd, roedd y pwyntiau cryf hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth gadarn am storïau, gwyliau a lleoedd addoli
- gwybodaeth dda o destun crefyddol, yn enwedig y Beibl
- gwybodaeth am y prif ffigurau crefyddol yn hanes traddodiadau crefyddol Cymru
- dealltwriaeth o rai nodweddion tebyg a gwahanol rhwng crefyddau
- dealltwriaeth gysyniadol da o Gristnogaeth a chrefyddau eraill
- ymweliadau gwerthfawr gan bobl o gymunedau ffydd gwahanol ac ymweliadau â lleoedd addoli
- defnydd effeithiol o arteffactau ac adnoddau
- cyfleoedd i'r dysgwyr eu hunain ymateb i faterion ysbrydol a chrefyddol.

Yn achos ysgolion uwchradd, nodwyd y nodweddion da canlynol.

- Gwybodaeth am amrywiaeth y traddodiadau Cristnogol o fewn cymunedau.
- Dealltwriaeth o faterion cyfoes a'u dylanwad ar grefydd.
- Dealltwriaeth o nodweddion tebyg a gwahanol rhwng crefyddau.

³ Diwygiodd Estyn y fframwaith arolygu hwn yn 2010.

- Dealltwriaeth o sut y mae credoau crefyddol yn dylanwadu ar ymddygiad.
- Gwerthfawrogiad o bwysigrwydd y prif ffigurau crefyddol.
- Gwerthfawrogiad o sut y mae arferion crefyddol cyfoes yn seiliedig ar hanes a thraddodiad.
- Pwysigrwydd dysgwyr yn codi cwestiynau moesol ac ysbrydol a'u cysylltu â'u profiadau eu hunain.
- Pwysigrwydd defnydd priodol o dermau a geirfa grefyddol mewn cyd-destun.
- Gallu cyflwyno dadleuon a gwranddo ar safbwyntiau pobl eraill.

Nodwyd rhai 'diffygion' mewn ambell i adroddiad arolygu. Yn achos ysgolion cynradd, roedd y rhain yn cynnwys:

- gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o grefyddau'r byd
- gallu cyfyngedig i alw i gof storïau'r Beibl
- ddim digon o wybodaeth am bobl amlwg yn hanes Cristnogaeth Cymru
- ddim digon o gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth y tu hwnt i wybodaeth ffeithiol
- ddim digon o ddatblygu sgiliau cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth
- cofnod cyfyngedig o waith ysgrifenedig
- cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer trafodaeth
- diffyg canolbwytio ar ddatblygu sgiliau ymholi
- mynediad cyfyngedig i arteffactau ac amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth
- cyfleoedd cyfyngedig i ymweld â lleoedd addoli.

Yn achos ysgolion uwchradd, roedd y diffygion yn cynnwys:

- dryswch ynghylch pa gredoau ac arferion sy'n gysylltiedig â pha grefyddau
- dysgwyr ddim yn gallu gwneud cysylltiad rhwng cynnwys crefyddol a'u bywydau eu hunain

- diffyg hyder wrth fynegi barn a chyflwyno dadleuon
- diffyg dyfnder a manylion mewn gwaith ysgrifenedig
- dysgwyr mwy galluog ddim yn gwneud cynnydd digonol
- darpariaeth annigonol i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA)
- presenoldeb gwael
- dyraniad amser annigonol i astudio'r maes llafur cytûn yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.

Roedd y rhan fwyaf o'r CYSAGau wedi cofnodi eu bod nhw wedi ysgrifennu i longyfarch ysgolion a gafodd Radd 1 (Da gyda nodweddion rhagorol) neu Radd 2 (Nodweddion da a dim diffygion pwysig) mewn addysg grefyddol yn eu harolygiadau. Roedd rhai o'r llythyrau hefyd yn atgoffa ysgolion am wasanaethau swyddogion yr awdurdod lleol, os oeddent ar gael, a phresenoldeb casgliadau o arteffactau i'w benthyca. Teimlai un CYSAG ei bod hi'n bwysig dweud wrth ysgolion y dylai darpariaeth addysg grefyddol gael ei hadolygu'n gyson ac nid dim ond er mwyn paratoi ar gyfer arolygiadau.

Os oedd ysgolion wedi cael Gradd 3 neu'n is, roedd hi'n ofynnol i bob un o'r ysgolion hyn anfon copi o'u cynlluniau gweithredu ôl-arolygu i'w CYSAG. Ym mhob un o'r achosion hyn, roedd swyddogion proffesiynol yr awdurdod lleol wedi cynorthwyo'r ysgolion i lunio'r cynlluniau gweithredu. Cafodd adroddiadau ar gynydd eu cyflwyno i gyrff llywodraethu'r ysgolion.

Dywedodd CYSAGau fod eu hawdurdodau lleol yn darparu HMS i ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi o'r adroddiadau arolygu. Roedd rhai hefyd wedi sôn am ymweliadau cefnogol i ysgolion gan ymgynghorydd yr awdurdod lleol.

Dywedodd sawl CYSAG eu bod nhw wedi mabwysiadu dulliau ychwanegol a chyflenwol o fonitro safonau mewn addysg grefyddol. Er enghraifft:

- Ers 2004, mae awdurdodau lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy wedi gweithredu rhaglen Monitro ac Adolygu Cefnogol. Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar fonitro ysgol uwchradd a'i hysgolion cynradd partner dros gyfnod o dymor. Yn dilyn ymweliad gan yr ymgynghorydd addysg grefyddol i'r ysgolion, mae adroddiadau'n cael eu llunio i nodi safonau mewn addysg grefyddol ac addysg ysbrydol, moesol, cymdeithasol a

diwylliannol. Mae CYSAGau yn cael adroddiadau unigol ac Adroddiad Consortiwm Cyfan. Dros gyfnod yr adolygiad presennol, roedd pob ysgol yn y tri awdurdod lleol dan sylw wedi'u cynnwys yn y rhaglen. O ganlyniad, adroddwyd bod lefel uchel o ysgolion yn cyrraedd safonau 'da' a 'da iawn' mewn addysg grefyddol. Y mater o bryder mwyaf cyffredin oedd cofnodi cyflawniad gan ddefnyddio lefelau'r maes llafur cytûn lleol a/neu Ddeunyddiau Asesu Dewisol ACCAC (2004) er bod ysgolion eisoes wedi cael canllawiau CYSAG ar y pwnc. O ganlyniad, roedd y CYSAGau wedi gwneud argymhellion pellach i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi. Adroddodd CYSAGau eu bod nhw'n fodlon â dyfnder yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Rhaglen Monitro ac Adolygu Cefnogol a'i bod yn rhoi darlun llawnach o'r ddarpariaeth o fewn 'teulu' o ysgolion.

- Roedd Powys (2004–05) wedi nodi gwerth yr arfer parhaus o gylchredeg dogfen flynyddol i ysgolion oedd yn tynnu sylw at yr arfer da a'r meysydd o bryder ym maes addysg grefyddol oedd yn deillio o'r adroddiadau arolygu.
- Roedd Sir Fynwy (2004–05 a 2005–06) wedi gofyn i'r awdurdod lleol benodi ymgynghorydd addysg grefyddol i ymweld ag ysgolion ar ei rhan er mwyn adrodd yn ôl ar safonau. Mae adroddiad CYSAG 2006–07 yn nodi nad oedd cyllid ar gael i gefnogi'r math hwn o fonitro ac y byddai ysgolion yn parhau i ddilyn proses hunanwerthuso.
- Roedd CYSAG Wrecsam wedi nodi gwerth ei raglen barhaus o ymweliadau gan aelodau CYSAG i ysgolion, a'r adroddiad dilynol sy'n cael ei fwydo yn ôl i'r ysgolion.

Roedd gweithdrefnau ôl-arolygu 2004 yn rhoi pwyslais cryf ar hunanwerthuso gan ysgolion. Roedd pedwar o'r CYSAGau (Sir Fôn, Gwynedd, Sir Fynwy, Powys) wedi gofyn i'r ysgolion ddarparu eu hadroddiadau hunanwerthuso pan fyddant yn cael arolygiadau os nad oes adroddiad penodol ar addysg grefyddol.

O ganlyniad i'r broses hunanwerthuso, prif agweddau addysg grefyddol i'w hystyried gan ysgolion fel yr amlinellir yn yr adroddiadau CYSAG hyn oedd yr angen i:

- ddatblygu dealltwriaeth staff o'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*
- datblygu strategaeth sgiliau meddwl mewn gwersi addysg grefyddol

- datblygu targedau asesu ar gyfer dysgu
- darparu cyfleoedd i fyfyrion
- darparu cynlluniau gwaith mwy ffurfiol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16
- ystyried manteision treialu TGAU Cyrsiau Byr Astudiaethau Crefyddol fel dull o gynnig darpariaeth ôl-16.

Disgrifiadau lefel diwedd Cyfnod Allweddol 3

Roedd chwe CYSAG wedi cynnwys gwybodaeth am safonau addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3 drwy asesuadau athrawon gan ddefnyddio disgrifiadau lefel meysydd llafur cytûn lleol, ac roedd rhai wedi sôn am ddefnyddio Deunyddiau Asesu Dewisol ACCAC fel sail ar gyfer eu hasesiadau. O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- Roedd Rhondda Cynon Taf (2004–05, 2005–06) wedi cyhoeddi ei asesuadau athrawon diwedd Cyfnod Allweddol 3 gan nodi ei fod wedi cymharu'r rhain â pherfformiad blaenorol mewn addysg grefyddol ac â phynciau eraill y cwricwlwm cenedlaethol
- Roedd Merthyr Tudful wedi gweld gwelliant sylweddol o ran cymhwyso ei lefelau ac anfonwyd llythyrau i'r ysgolion yn eu llongyfarch
- Roedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi ystyried y disgrifiadau lefel a ddyfarnwyd a'u cymharu â rhai'r blynyddoedd blaenorol
- Roedd Sir Fôn, Gwynedd a Chaerffili wedi cyflwyno eu canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 fel gwybodaeth yn unig.

Darpariaeth 14 i 19

Roedd rhai CYSAGau wedi darparu gwybodaeth ar ddarpariaeth i ddysgwyr 14 i 19. Adroddodd ambell i CYSAG nad oedd ei ysgolion uwchradd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion statudol addysg grefyddol i ddysgwyr 14 i 19. Adroddodd y CYSAGau ar yr agweddau canlynol.

- Yn 2007–08, anfonodd awdurdod lleol Blaenau Gwent holiaduron i'w ysgolion uwchradd i geisio gwybodaeth am ddarpariaeth Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Nodwyd bod pump o'r chwe ysgol uwchradd yn defnyddio cwrs addysg grefyddol achrededig er mwyn bodloni'r gofynion. Yn yr ysgol oedd yn weddill, roedd cynlluniau ar droed i gynyddu'r dyraniad amser a chynnig cwrs byr.
- Yn 2006–07, roedd CYSAG Sir Fynwy wedi ceisio eglurhad fesul ysgol ar y sefyllfa bresennol. Cytunwyd y byddai'n adrodd yn ôl ar yr wybodaeth hon yng ngwanwyn 2008. (Nid oedd gwybodaeth ar gael adeg ysgrifennu.)

- Yn 2007–08, anfonodd CYSAG Bro Morgannwg holiadur i bob un o'i ysgolion uwchradd er mwyn cael darlun clir o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Nodwyd bod pob ysgol yn defnyddio cwrs achrededig i gyflawni'r rhwymedigaeth statudol i ddarparu addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4. O'r chwe ysgol gyda chweched dosbarth, dim ond pedair oedd wedi gwneud rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol ac roedd y dyraniad amser yn amrywio. Yn y mwyafrif o'r ysgolion hyn ni fodlonwyd yr amser cwricwlwm gofynnol. Penderfynodd y CYSAG i beidio â phennu dyraniad amser, ond yn hytrach pwysleisio pwysigrwydd y pwnc yn y cyfnod allweddol hwn.
- Yn 2006–07, roedd CYSAG Casnewydd wedi cynnal arolwg o'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 4 i weld beth oedd yn effeithio ar safonau. Anfonwyd y canlyniadau i'r ysgolion a gofynnwyd iddynt fynd i'r afael ag unrhyw ffactorau oedd yn effeithio ar berfformiad. Rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol i athrawon addysg grefyddol anarbenigol. O ganlyniad i'r hyfforddiant hwn, nodwyd bod canlyniadau TGAU cwrs byr wedi 'gwella'n sylweddol'.
- Roedd Castell-nedd Port Talbot wedi nodi yn 2005–06 fod adroddiadau arolygu wedi cofnodi safonau is oherwydd nad oedd digon o amser wedi ei neilltuo ar gyfer y pwnc. Nid yw adroddiadau dilynol yn nodi a yw'r mater wedi cael sylw neu beidio.
- Mae adroddiadau CYSAG Sir y Fflint a Sir Ddinbych ar gyfer y cyfnod adrodd yn sôn bod rhai adroddiadau arolygu ysgolion unigol wedi adnabod darpariaeth ôl-16 fel maes i'w fonitro a'i ddatblygu. Hyd yma, nid yw wedi datgan sut y rhoddwyd sylw i hyn.

Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (YMCD)

Mae'r fframwaith arolygu yn gofyn am adroddiadau ar y ddarpariaeth ar gyfer YMCD. Roedd CYSAGau Sir Benfro a Gwynedd wedi cofnodi tystiolaeth am y gofyniad statudol hwn yn eu hadroddiadau. Y cryfderau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd:

- cyfraniad cadarnhaol addoli ar y cyd
- dysgwyr yn cymryd rhan mewn gwaith elusennol
- ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang

- cyfraniad at gynaliadwyedd a gofalu am yr amgylchedd
- bodolaeth cynghorau dosbarth a chynghorau ysgol
- gwerth amser cylch gyda dysgwyr iau
- cysylltiadau a wnaed ag eglwysi lleol ac arweinwyr crefyddol sy'n ymweld â'r ysgolion
- trafod materion moesol a chrefyddol
- canolbwyntio ar hybu parch at gyfiawnder a gwirionedd.

Y diffygion mwyaf cyffredin a nodwyd oedd:

- dim cynllunio strwythuredig ar gyfer datblygiad ysbrydol
- datblygiad ysbrydol cyfyngedig drwy wahanol bynciau'r cwricwlwm
- cyfleoedd annigonol i fyfyrion.

Mae'r amrywiaeth o dystiolaeth a gyflwynwyd yn awgrymu bod y meysydd llafur cytûn newydd yn seiliedig ar y *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn dechrau ymwreiddio yn yr ysgolion erbyn diwedd y cyfnod adrodd, a'u bod yn gymorth amhrisiadwy i gynllunio tymor canolig a thymor hir.

Mae AdAS yn croesawu gwaith monitro safonau a materion cydymffurfio CYSAGau. Yn wyneb y newidiadau a welwyd yn y gweithdrefnau arolygu, mae rhai CYSAGau wedi cynghori eu hawdurdodau lleol i weithredu dulliau cyflenwol o fonitro safonau megis gweithredu gweithdrefnau hunanwerthuso, cysylltu ag ysgolion i gynnig cymorth, a/neu wneud cais i ddysgwyr gael eu hawl statudol i addysg grefyddol.

Gwahoddir pob CYSAG i gynghori awdurdodau lleol ar fabwysiadu dulliau effeithiol o fonitro a chefnogi ysgolion wrth iddynt weithredu addysg grefyddol o safon i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru.

Canlyniadau arholiadau

Mae CYSAGau yn darparu gwybodaeth ystadegol am berfformiadau eu hysgolion mewn arholiadau cyhoeddus er mwyn arddangos safonau mewn astudiaethau crefyddol/addysg grefyddol statudol.

Mae'r rhan fwyaf o'r CYSAGau yn darparu gwybodaeth ystadegol (gweler Atodiad 6 ar dudalen 51), ond mae amrywiaeth yn lefel y manylion a roddir yn yr adroddiadau ar ganlyniadau arholiadau ac oherwydd hynny nid yw'r wybodaeth hon yn gyson ar draws pob awdurdod lleol. Er enghraifft, mae rhai CYSAGau wedi cyfuno canlyniadau dysgwyr sydd wedi dilyn cyrsiau byr yn eu hastudiaethau Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ac wedi cyflwyno'r ystadegau hyn fel TGAU llawn. Abertawe oedd yr unig CYSAG i gyflwyno ffigurau perfformiad ar wahân ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, gan ddangos y tuedd bod canlyniadau Blwyddyn 10 yn well at ei gilydd na chanlyniadau Blwyddyn 11.

Mae rhai CYSAGau yn sôn am y ffaith bod eu hysgolion yn perfformio'n waeth mewn arholiadau TGAU Cwrs Byr nag yn y blynyddoedd blaenorol. Un esboniad a roddwyd am hyn oedd polisi derbyn ysgolion unigol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cofrestru niferoedd uchel, eu carfan gyfan weithiau, sydd wrth gwrs yn cynnwys dysgwyr llai galluog. Gall y ffactor hwn roi canrannau is ac felly roedd y CYSAGau wedi annog pobl i drin y ffigurau yn ofalus. Ni awgrymwyd unrhyw ddulliau ar gyfer cyflwyno ystadegau er mwyn gwahaniaethu rhwng ysgolion a oedd wedi cofrestru carfannau cyfan a'r rhai oedd heb wneud hynny.

Cafodd canlyniadau arholiadau bechgyn a merched eu cofnodi ar wahân gan y CYSAGau ar gyfer: Sir Fôn, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Chastell-nedd Port Talbot. Mewn rhai achosion, ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau am y canlyniadau, tra bo eraill wedi nodi bod merched yn perfformio'n well na bechgyn ar y cyfan. Roedd Abertawe (2007–08) wedi nodi bod y bwlch perfformiad yn lleihau a bod bechgyn wedi perfformio'n well na merched mewn rhai o'r ysgolion. Pan gafodd gwahaniaethau rhyw eu nodi, dywedodd y CYSAGau eu bod yn rhoi strategaethau ar waith i'w datrys. Hyd yma ni chafwyd unrhyw wybodaeth am natur y strategaethau hyn na'u heffaith ar ganlyniadau dilynol.

Yn ogystal â materion perfformiad rhyw, roedd un CYSAG (Sir Gaerfyrddin 2004–05) hefyd wedi mynegi pryder bod llawer llai o fechgyn yn dewis addysg grefyddol fel pwnc. Yn yr achos hwn dywedodd ymgynghorydd yr awdurdod lleol ei bod hi'n hyrwyddo technegau dysgu gweithredol mewn ymgais i geisio ehangu apêl addysg grefyddol i fechgyn. Ni ddywedwyd a oedd mwy o fechgyn yn dewis addysg grefyddol o ganlyniad.

Cofnodwyd y canlyniadau ar gyfer Tystysgrif Cyflawniad Addysgol (TCA) mewn Astudiaethau Crefyddol gan Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.

Wrth ystyried yr ystadegau UG, roedd sawl CYSAG wedi nodi eu bod nhw wedi rhoi'r canlyniadau hynny dim ond os oedd dysgwyr wedi dewis 'cyfnewid' eu cymhwyster yn hytrach na pharhau â'u cymhwyster hyd at Safon Uwch. (Felly rhaid bod yn ofalus wrth dynnu casgliadau o'r ystadegau.)

Ni chafodd unrhyw ganlyniadau arholiadau eu cofnodi gan Sir Fynwy a Blaenau Gwent ar gyfer cyfnod yr adolygiad presennol. Dywedodd y ddau CYSAG eu bod nhw am adolygu'r ffordd y maent yn cyflwyno canlyniadau yn y dyfodol.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan y CYSAGau yn dangos bod y ffigurau derbyn ar gyfer TGAU a TAG Safon Uwch yn cynyddu'n raddol. Roedd pob un o'r CYSAGau yn croesawu hyn ac yn ei ystyried yn arwydd calonogol.

Gweithredu yn deillio o ganlyniadau arholiadau

Gydag un eithriad, dywedodd pob CYSAG oedd wedi cyflwyno canlyniadau arholiadau eu bod nhw wedi ystyried a thrafod y canlyniadau hyn yn eu cyfarfodydd. (Cafodd canlyniadau Sir Benfro eu cyflwyno heb unrhyw sylwadau na chasgliadau.) Dywedodd y rhan fwyaf o'r CYSAGau eu bod nhw wedi cymharu'r canlyniadau am y tair i bum mlynedd diwethaf er mwyn adnabod tueddiadau a chynorthwyo cynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, roedd CYSAGau wedi cymharu eu canlyniadau â'r ffigurau ar gyfer Cymru gyfan gan nodi ble roedd eu hawdurdodau lleol yn uwch neu'n is na'r ffigurau cenedlaethol.

Os oedd ysgolion wedi perfformio'n dda, dywedodd y rhan fwyaf o CYSAGau eu bod nhw wedi ysgrifennu llythyrau i'r ysgolion yn eu llongyfarch ar eu canlyniadau cadarnhaol.

Roedd sawl CYSAG wedi datgan eu bod yn defnyddio HMS i drafod a gwella safonau mewn arholiadau cyhoeddus.

Roedd CYSAG Abertawe (2004–05) wedi mynegi pryder am ganlyniadau siomedig TGAU Cwrs Byr. Anfonwyd holiadur i'r ysgolion i geisio canfod pa ffactorau oedd yn effeithio ar y canlyniadau. Yn 2005–06 adroddodd CYSAGau mai'r prif ffactorau oedd yn cael effaith negyddol ar y canlyniadau oedd dyraniad amser annigonol, diffyg adnoddau a defnyddio athrawon addysg grefyddol anarbenigol. Yn dilyn hyn, anfonwyd llythyr i'r ysgolion yn eu hannog i ystyried y materion hyn yng nghyd-destun darparu addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4.

Yn Sir y Fflint, roedd unrhyw ysgolion oedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol am dair blynedd neu ragor yn cael llythyrau gan eu CYSAG yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â'r camau sy'n cael eu cymryd i wella'r sefyllfa ac i gynnig cymorth ymgynghorydd yr awdurdod lleol.

Yn 2005, roedd Casnewydd wedi cynghori'r awdurdod lleol i gynnal arolwg i ganfod pa ffactorau oedd yn cael effaith ar y gostyngiad mewn safonau TGAU Cyrsiau Byr. Anfonwyd y canlyniadau i'r ysgolion a chawsant eu hannog i sicrhau bod y ffactorau yn cael sylw. Roedd defnyddio athrawon anarbenigol ar gyfer addysg grefyddol yn broblem mewn rhai ysgolion. Cytunodd yr awdurdod lleol i ariannu cwrs hyfforddi hanner diwrnod i athrawon anarbenigol yn haf 2006. Nodwyd bod canlyniadau cyrsiau byr 2006 wedi gwella'n sylweddol.

Mae AdAS yn croesawu dadansoddiad a thrafodaeth CYSAGau o'r canlyniadau arholiadau. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd canlyniadau'n cael eu cymharu â ffigurau Cymru, canlyniadau o'r blynyddoedd blaenorol, patrymau derbyn a materion rhyw.

Er bod cymhlethdod dadansoddi tystiolaeth ystadegol yn cael ei gydnabod, gall rhai tueddiadau ddangos materion y mae modd eu datrys drwy HMS ar gyfer athrawon anarbenigol, darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer bechgyn, cyngor gan ymgynghorwyr ac ati fel y disgrifir yn nifer o'r adroddiadau CYSAG.

Mae AdAS yn argymhell bod pob dadansoddiad o ganlyniadau arholiadau yn arwain at drafodaeth bwrpasol a, lle y bo'n briodol, gweithredu â ffocws a monitro dilynol er mwyn cefnogi ysgolion a rhannu arfer da gyda'r nod o godi safonau.

Dulliau addysgu, dewis deunyddiau addysgu a hyfforddi athrawon

Mae CYSAGau yn llunio adroddiadau i'w hawdurdodau lleol ac yn eu cynghori ar ddulliau addysgu, dewis adnoddau a hyfforddi athrawon.

Dulliau addysgu

Roedd sawl CYSAG wedi nodi cymorth amhrisiadwy eu gwasanaethau ymgynghorol o ran helpu eu hathrawon i gynllunio rhaglenni astudio a deunyddiau asesu, paratoi gweithgareddau ystafell ddosbarth a dewis adnoddau addas. Roedd y cyfraniad a wnaed gan y gwasanaeth ymgynghorol yn cael ei ystyried yn ddull ardderchog o roi cyngor a rhannu arfer da wrth ymweld ag ysgolion,

darparu cyrsiau HMS a datblygu deunyddiau ystafelloedd dosbarth ysgogol. Enghreifftiau a nodwyd:

- Roedd CYSAG Blaenau Gwent (2006–07) yn annog ysgolion i gwrdd mewn cyfarfodydd clwstwr cynradd ac uwchradd er mwyn datblygu cysylltiadau a phontio effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd wedi argymhell adnoddau a gyhoeddwyd yn *RE Today* i gefnogi parhad a dilyniant.
- Roedd CYSAG Sir Fynwy (2004–05) wedi gofyn i'w ymgynghorydd proffesiynol gynnal adolygiad o addysg grefyddol mewn saith ysgol i archwilio sawl agwedd gan gynnwys: defnyddio'r maes llafur cytûn lleol, gwaith dysgwyr, adnoddau a hyfforddiant a chymorth staff. Cafodd arferion da y gellid eu rhannu ag ysgolion eraill eu nodi.
- Roedd CYSAG Powys (2006–07) wedi cymeradwyo gwaith timau ymchwil gweithredu yr awdurdod lleol a'r ffaith bod ganddynt nifer o ysgolion ym mhob sector y gellid eu defnyddio fel enghreifftiau o arfer da yng nghyswllt defnyddio methodolegau newydd i addysgu addysg grefyddol.

Roedd sawl CYSAG wedi nodi bod eu hawdurdod lleol wedi darparu dogfennau cyfarwyddyd i gefnogi addysgu addysg grefyddol ac yn arbennig cyflwyno'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* newydd (gweler Atodiad 7 ar dudalen 55).

Gwerthuso dulliau addysgu

Ni chafodd unrhyw werthusiadau ffurfiol o ddulliau addysgu eu cofnodi mewn unrhyw adroddiadau, er bod Sir Ddinbych a Sir y Fflint wedi nodi bod y dystiolaeth o adolygiadau cefnogol eu hysgolion yn awgrymu bod y cymorth a ddarperir gan wasanaethau ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cael ei werthfawrogi ac yn fuddiol.

Dewis deunyddiau addysgu

Dywedodd y mwyafrif o'r CYSAGau fod eu hawdurdodau lleol wedi anfon dogfennau cyfarwyddyd i ysgolion i helpu athrawon i ddewis deunyddiau addysgu o safon (gweler Atodiad 7 ar dudalen 55). Cafodd y deunyddiau hyn eu dosbarthu yn rhad ac am ddim i'r ysgolion.

Roedd tri CYSAG (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy) wedi pwysleisio nad ydynt yn cynghori ysgolion yn ffurfiol ynghylch prynu deunyddiau athrawon gan eu bod o'r farn mai mater i'r ysgolion eu hunain yw hwn. Fodd bynnag, nodwyd bod ymgynghorwyr yn gallu ymgyfarwyddo athrawon â'r deunyddiau newydd a rhoi cyngor yn ystod eu hymweliadau ysgol ac mewn cyrsiau HMS.

Roedd Sir Gaerfyrddin wedi argymhell adnoddau sydd ar gael i'w prynu, er enghraifft y llyfrau mawr dwyieithog a CDau ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a gafodd eu hysgrifennu gan ymgynghorydd yr awdurdod lleol.

Roedd Sir Gaerfyrddin (2004–05) wedi darparu manylion helaeth am ei safleoedd rhyngrwyd a mewnrwyd. Roedd y CYSAG yn cymeradwyo'r deunyddiau hyn a chawsant eu rhoi i GCaD Cymru er mwyn gallu eu rhannu â dysgwyr ledled Cymru. Dywedodd CYSAG Sir Gaerfyrddin fod eu deunyddiau yn boblogaidd gydag ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill a'u bod yn ddefnyddiol iawn o ran gwneud credoau ac arferion crefyddol yn fwy ystyrlon i ddysgwyr ifanc.

Dywedodd CYSAGau Sir Gaerfyrddin, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Sir Fynwy fod gwasanaethau benthyca arteffactau crefyddol ar gael gan eu hawdurdodau lleol.

Roedd CYSAGau Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy wedi nodi bod eu hysgolion yn gallu defnyddio, a'u bod nhw'n defnyddio Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru ym Mhrifysgol Cymru Bangor.

Roedd CYSAGau Conwy a Sir y Fflint (2005–06) wedi cynghori eu hawdurdodau lleol i ystyried pa ddeunyddiau addysgu fyddai eu hangen ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* newydd.

Roedd ysgolion Sir Fynwy a Blaenau Gwent (2006–08) wedi cymryd rhan mewn treialu deunyddiau addysgu oedd wedi'u cynllunio'n benodol i ddatblygu gweithgareddau seiliedig ar sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae adroddiad CYSAG yn sôn am waith yr ymgynghorydd addysg grefyddol yn cymharu samplau gwaith dysgwyr ar ddechrau'r cyfnod treialu â'r safonau a gyflawnwyd ar y diwedd. Mae'r cyflawniadau addysgu a dysgu yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad fel rhai 'rhagorol'.

Hyfforddiant mewn swydd

Roedd pob CYSAG wedi mynegi pryder am lefel y ddarpariaeth o gysiau addysg grefyddol. Yn arbennig, roedd hyn wedi cael effaith ar y cysiau a gynigiwyd ar gyfer y blynyddoedd academiaidd 2004–05 a 2005–06. Mewn sawl achos, ysgrifennodd y CYSAGau i'w Cyfarwyddwyr Addysg a'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i fynegi eu pryderon. Yr ymateb a gafwyd oedd nad oedd unrhyw fwriad i newid y trefniadau a'r fformiwla ariannu ar hyn o bryd.

Cofnodwyd nad oedd unrhyw HMS ar gael ar gyfer addysg grefyddol yn yr awdurdodau lleol canlynol:

- 2004–07 Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Torfaen
- 2005–06 Abertawe.

Roedd Gwynedd a Sir Fôn wedi mynd i'r afael â'r broblem o ddiffyg athrawon cyflenwi drwy gyflwyno system newydd o gau pob ysgol yr awdurdod lleol am ddau ddiwrnod bob blwyddyn er mwyn i athrawon allu mynychu cyrsiau.

Roedd ymgynghorydd addysg grefyddol Sir Gaerfyrddin wedi cynllunio cynnwys cwrs ar gyfer 2004–06 oedd yn defnyddio addysg grefyddol fel cyd-destun ar gyfer datblygu rhai o'r blaenoriaethau dynodedig megis: pontio, TGCh, asesu a'r Cwricwlwm Cymreig yn unol â meini prawf y Gronfa Ysgolion Gwell (CYG). Y dystiolaeth seiliedig ar anghenion ar gyfer y cyrsiau hyn oedd dadansoddiad o adroddiadau Estyn, canlyniadau arholiadau, ymweliadau ysgol a thrafodaethau ag athrawon.

Roedd Sir Gaerfyrddin hefyd yn gallu ategu ei rhaglen HMS gyda chyllid gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (C yngACC) a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Mae ambell i CYSAG arall hefyd wedi nodi, er na fu modd iddynt gynnig HMS sirol ffurfiol, roedd rhai athrawon unigol wedi cael hyfforddiant mewn swydd drwy'r C yngACC.

Mynegodd sawl CYSAG yr hoffai weld yr hyfforddiant hwnnw yn parhau i fod ar gael i ysgolion ac y dylid annog ysgolion i gefnogi datblygu staff lle bynnag y bo'n bosibl.

